

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn egluro pam y mae Practis Meddygol Uwchaled yn casglu gwybodaeth amdanoch a sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth honno.

### **Pam cyhoeddi hysbysiad preifatrwydd?**

Mae Practis Meddygol Uwchaled yn cydnabod pwysigrwydd diogelu gwybodaeth bersonol a chyfrinachol ym mhob peth a wnawn ac yn gofalu y bodlonir ei ddyletswyddau cyfreithiol a rheoleiddio. Mae'r hysbysiad hwn yn un dull o ddangos ein hymrwymiad i'n gwerthoedd ac o fod yn dryloyw ac agored. Mae'r hysbysiad hwn hefyd yn egluro eich hawliau o ran rheoli sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth.

### **Pam ydym ni'n casglu ac yn cadw gwybodaeth amdanoch chi?**

Er mwyn darparu gofal o'r radd flaenaf, mae rhaid i ni gadw cofnodion. Cedwir y rhain ar system gyfrifiadurol ddiogel, sef ein 'system glinigol', ac mae rhai cofnodion papur hefyd. Gellir rhannu'r wybodaeth hon wedyn â Chlinigwyr eraill fel bod pawb sy'n gofalu amdanoch yn gwybod eich hanes meddygol.

Mae'n bwysig iawn bod gan y gweithwyr iechyd sy'n gofalu amdanoch wybodaeth fanwl gywir a chyfredol fel y gallant ddarparu'r driniaeth, y gofal a'r cyngor gorau un i chi.

Pan fo angen, gellir cael gafael ar wybodaeth:

- bersonol, megis enw, dyddiad geni, rhyw; gwybodaeth am
- alergeddau;
- meddyginiaeth;
- derbyniadau i'r ysbyty, mynychu'r ysbyty a dyddiadau cyfeirio;
- brechu ac imiwneiddio;
- canlyniadau profion, gan gynnwys mesuriadau megis pwysedd gwaed;
- diagnosis (problemau presennol a blaenorol);
- triniaeth a thriniaethau meddygol.

### **Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth i:**

- Helpu i wneud penderfyniadau am eich gofal
- Sicrhau bod eich triniaeth yn ddiogel ac yn effeithiol
- Gweithio'n effeithiol gyda sefydliadau eraill sy'n rhan o'ch gofal
- Cynnal iechyd y cyhoedd
- Sicrhau bod ein gwasanaethau yn bodloni anghenion y dyfodol
- Adolygu'r gofal a ddarperir er mwyn sicrhau ei fod o'r radd flaenaf
- Hyfforddi gweithwyr iechyd
- At ddibenion ymchwil ac archwilio
- Paratoi ystadegau ar berfformiad
- Monitro sut rydym yn gwario arian cyhoeddus

## **Datgelu gwybodaeth i weithwyr iechyd a chymdeithasol eraill**

Rydym yn gweithio gyda nifer o asiantaethau partner a GIG eraill i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd ar eich cyfer. Gyda'ch cydsyniad, ac os bodlonir protocolau tynn ar rannu gwybodaeth a sut y'i defnyddir, gallwn hefyd rannu eich gwybodaeth ag adrannau Iechyd a Gofal Cymdeithasol eraill, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân.

## **Sut yr ydym yn cadw eich gwybodaeth yn gyfrinachol ac yn ddiogel**

Rydym wedi ymrwmo i ddiogelu eich preifatrwydd, a byddwn ond yn defnyddio gwybodaeth a gesglir yn gyfreithiol, a hynny'n unol â Deddf Diogelu Data 1998, Erthygl 8 y Ddeddf Hawliau Dynol, Y Gyfraith Gyffredin ar Gyfrinachedd, Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Chodau Ymarfer Cyfrinachedd a Diogelwch y GIG. Mae rhaid i bawb sy'n gweithio i'r GIG ddefnyddio gwybodaeth bersonol mewn modd diogel a chyfrinachol.

Nodwch y bydd staff yn y feddygfa nad ydynt yn Glinigwyr yn gweld eich gwybodaeth er mwyn cwblhau tasgau swyddogaethol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Teipio llythyrau cyfeirio i Ymgynghorwyr Ysbyty neu Weithwyr Proffesiynol perthynol i iechyd
- Agor llythyrau gan ysbytai ac Ymgynghorwyr
- Argraffu presgripsiynau
- Sganio llythyrau clinigol, adroddiadau neu ddogfennau eraill nad ydynt ar gael yn electronig
- Llungopïo neu argraffu dogfennau cyfeirio at Ymgynghorwyr
- Trin, argraffu, llungopïo a phostio adroddiadau meddygol-gyfreithiol ac yswiriant bywyd, a dogfennau cysylltiedig eraill
- Pan fyddwch yn cofrestru yn y Feddygfa, gallwn ofyn am brawf o bwy ydych chi – diben hyn yw sicrhau bod neb yn ceisio eich cofrestru yn y Feddygfa gan ddefnyddio eich manylion, a hynny heb yn wybod i chi. Gellir eich sicrhau y dinistrir unrhyw brawf o bwy ydych chi unwaith y daw cadarnhad gan GIG Cymru eich bod wedi'ch cofrestru. Fe gymer hyn 2-3 diwrnod ar y mwyaf.

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

Er mwyn diogelu eich cyfrinachedd, ni fyddwn fel arfer yn datgelu unrhyw wybodaeth feddygol amdanoch dros y ffôn neu ar ffacs, oni bai ein bod yn sicr mai gyda chi rydym yn siarad. Golyga hyn na fyddwn yn datgelu gwybodaeth i'ch teulu, eich cyfeillion na'ch cyd-weithwyr am unrhyw fater meddygol, oni bai bod gennym eich cydsyniad chi i wneud hynny.

Ni fyddwn yn defnyddio nac yn trosglwyddo eich gwybodaeth oni bai bod gwir angen gwneud hynny. Ni fyddwn yn datgelu gwybodaeth amdanoch i drydydd parti heb eich caniatâd oni bai bod amgylchiadau eithriadol, megis gofyn cyfreithiol.

Mae pob unigolyn yn y Feddygfa (p'un a yw'n cael ei gyflogi gan y Meddygon neu'r Bwrdd Iechyd Lleol) yn llofnodi cytundeb cyfrinachedd sy'n amlinellu'n glir ei ddyletswyddau o ran gwybodaeth iechyd bersonol a chanlyniadau tor-dyletswydd.

## **Eich hawl i weld yr wybodaeth am eich iechyd**

Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn eich galluogi i ganfod pa wybodaeth a ddelir amdanoch ar gyfrifiadur neu ar gofnodion papur. Gelwir hyn yn 'hawl testun i gael mynediad at ddata' ac mae a wnelo â gwybodaeth bersonol a ddelir amdanoch. Os ydych am weld neu dderbyn wybodaeth a ddelir gan y Feddygfa:

- Bydd angen i chi wneud cais i reolwr y practis
- Gallwn ofyn i chi gwblhau ffurflen sy'n gofyn yn union pa ran o'ch cofnod rydych ei angen
- Bydd angen i chi ddarparu digon o wybodaeth fel y gallwn fod yn sicr bod eich cais yn gyfreithlon (cyfeiriad, dyddiad geni, rhif GIG ac ati), yn ogystal â phrawf o bwy ydych chi er mwyn i ni allu cadarnhau eich hunaniaeth.
- Efallai y bydd angen talu am nifer eithafol o geisiadau am wybodaeth a ddelir amdanoch
- Rhaid i ni ymateb i'ch cais o fewn mis.

## **Pwy arall allai ofyn am gael gweld eich gwybodaeth**

- Gall y **Llys** fynnu ein bod yn datgelu cofnodion meddygol;
- Mae **cyfreithwyr** yn aml yn gofyn am adroddiadau meddygol. Bydd arnom angen caniatâd ysgrifenedig gennych ar gyfer hyn. Ni fyddwn fel arfer yn rhyddhau gwybodaeth am bobl eraill sydd yn eich cofnodion (er enghraifft gwraig, plant, rhieni ac ati), oni bai eu bod wedi cydsynio.
- **Gwasanaethau Cymdeithasol** – gall yr Asiantaeth Budd-daliadau ac eraill ofyn am adroddiadau meddygol o bryd i'w gilydd. Bydd arnom angen eich caniatâd ysgrifenedig ar gyfer hyn.
- Mae **Cwmnïau Yswiriant Bywyd/Cyflogwyr/Meddygon Iechyd Galwedigaethol** yn aml yn gofyn am adroddiadau ar unigolion. Byddwn bob amser yn anfon eich caniatâd ysgrifenedig gyda'r rhain.

Ni fyddwn yn datgelu'r wybodaeth feddygol berthnasol heb eich caniatâd. Mae gennych hawl i weld adroddiadau a ddarperir ar gyfer Cwmnïau Yswiriant, cyflogwyr neu feddygon iechyd galwedigaethol cyn i ni eu hanfon, os dymunwch hynny.

## **Rhannu eich gwybodaeth heb eich caniatâd**

Byddwn fel arfer yn gofyn am eich caniatâd, ond mae adegau pan fydd gofyn i ni, yn ôl y gyfraith, rannu eich gwybodaeth heb eich caniatâd, er enghraifft, pan fo:

- risg difrifol o niwed neu gamdriniaeth i chi neu eraill
- trosedd difrifol megis ymosodiad yn destun ymchwiliad, neu y gellid ei atal
- achosion o glefydau heintus all beryglu diogelwch eraill, megis llid yr ymennydd neu'r frech goch (ond nid gwybodaeth sensitif megis HIV/AIDS)
- Gorchymyn Llys ffurfiol wedi'i gyhoeddi
- gofyn cyfreithiol, er enghraifft, achos o drosedd ar y ffordd.

Mae'r practis wedi ymrwymo i sicrhau y diogelir eich preifatrwydd.

## **Newid mewn manylion**

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni am unrhyw newid manylion megis eich enw, cyfeiriad, rhif ffôn cartref/symudol, neu os yw manylion megis eich dyddiad geni yn anghywir er mwyn i ni allu cywiro hyn. Mae gennych gyfrifoldeb i'n hysbysu am unrhyw newid fel bod ein cofnodion yn fanwl gywir a chyfredol bob amser.

*Nid yw'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn cynnwys manylion cynhwysfawr am bob agwedd ar brosesau casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol Practis Meddygol Uwchaled. Fodd bynnag, rydym yn fwy na bodlon cynnig gwybodaeth neu eglurhad pellach. Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:*

Rheolwr y Practis, Helen Williams

Rhif ffôn: 01490 420210

## **Cwynion**

Cysylltwch â Rheolwr y Practis os oes gennych gŵyn am sut y mae'r practis yn rheoli eich gwybodaeth. Os ydych dal yn anhapus gydag ymateb y Practis, gallwch gyflwyno cŵyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth [www.ico.gov.uk](http://www.ico.gov.uk)

## **Newidiadau i'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn**

Rydym yn adolygu ein Hysbysiad Preifatrwydd yn gyson. Adolygir yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn nesaf ym mis Mai 2019.